Lluniwch gae pêl-droed i raddfa, gan ddefnyddio papur sgwariau neu bapur graff. Labelwch y **rhannau** a **dimensiynau** canlynol ar eich diagram :

**Dimensiynau**

- Mae'r cae pêl-droed yn mesur **105 metr** o hyd, a **68 metr** o led
- Ar canolbwynt y llinell sy'n hollti'r cae yn ddwy ran, mae'r **pwynt canol** y cae
- Mae gan y cylch sydd o amgylch y pwynt canol radiws o **9.15 metr**
- Rhaid i'r ddwy linell gôl fod yr un lled â'r **pyst gôl**
- Rhaid lleoli'r **gôl** ar ganol pob un o'r llinellau gôl
- Y pellter rhwng y **pyst gôl** yw **7.32 metr**

**Dimensiynau'r Ardal Gôl**

- Tynnir ddwy linell o pob postyn gôl, **5.5 metr** ar hyd y llinell gôl
- Yna, tynnir dwy linell sy'n ymestyn mewn i'r cae, **5.5 metr**
- Yna maent yn cael eu cysylltu gan linell sy'n paralel i'r **linell gôl**

**Dimensiynau'r Ardal Gosb**

- Tynnir dwy linell o'r linell gôl. Y tro hwn, **16.5 metr** o pob postyn gôl.
- Yna, tynnir dwy linell sy'n ymestyn mewn i'r cae **16.5 metr**, a maent yn cael eu cysylltu gan linell sy'n parallel i'r **linell gôl**.
- Mae'r **smotyn cosb 11 metr** o ganolbwynt y **gôl.**
- Tu allan i'r **ardal gosb**, mae arc cylch sydd â radiws **9.15 metr** o'r **smotyn cosb**.

**Dimensiynau'r Ardal Gornel**

- Yr **ardal gornel** yw'r man y mae'r **ystlys** a'r **llinell gôl** yn cwrdd. Mae'n cael ei farcio gan chwarter cylch.
- Mae'r chwarter cylch yn cael ei farcio yn yr ardal chwarae, a mae ganddo radiws o **1 metr** o pob **postyn gornel**.